

Cofrestru Ar-lein

Cyn i chi wneud cais am grant gan Chwaraeon Cymru bydd rhaid i chi gofrestru eich manylion gyda Chwaraeon Cymru i gael cyfrinair i fewngofnodi i Borthol Grantiau Chwaraeon Cymru.

Mynediad i Borthol Grantiau Chwaraeon Cymru

Ceir mynediad i Borthol Grantiau Chwaraeon Cymru o dudalennau Cyllid gwefan Chwaraeon Cymru. Mae'r rhain yr un tudalennau â'r rhai wnaethoch eu defnyddio i ddod i ddarllen y ddogfen gymorth yma. Cliciwch ar y botwm gwyrdd [Ymgeisio Ar-lein] i gael mynediad i sgrin fewngofnodi Porthol Grantiau Chwaraeon Cymru.

Cofrestru

Ar sgrin fewngofnodi Porthol Grantiau Chwaraeon Cymru fe welwch chi ddwy faner tua gwaelod y sgrin. Os hoffech chi i Borthol Grantiau Chwaraeon Cymru gael ei ddangos yn y Gymraeg, cliciwch ar faner Cymru ac os yw'n well gennych ei gael yn Saesneg, cliciwch ar faner yr Undeb.



Er mwyn gwneud cais am grant gan y Gist Gymunedol neu Grant Datblygu ar-lein, bydd rhaid i chi "gofrestru" eich manylion gyda Chwaraeon Cymru i ddechrau. Cliciwch ar y botwm [Cofrestru] fel y dangosir isod.

Text size A A A | Color Preference C C C C

System Ymgeisio Chwaraeon Cymru

CC Grant Tracker

Mewngofnodi - Cais am Grant i Chwaraeon Cymru

Mewngofnodwch gan ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost a'ch Enw Defnyddiwr a hefyd y cyfrinair a roddwyd i chi gan Chwaraeon Cymru.

Os nad ydych yn Ddefnyddiwr cofrestredig, cofrestrwch ar-lein gan ddefnyddio'r botwm [Cofrestru] isod.

Os ydych chi wedi anghofio eich cyfrinair, cliciwch ar y ddolen "Wedi Anghofio Cyfrinair" isod a bydd eich cyfrinair yn cael ei e-bostio atoch.

Defnyddiwr presennol?

Mewngofnodwch i fynd i mewn i'ch cyfrif.

E-bost

Cyfrinair

Cofiwch Fi [Wedi Anghofio Cyfrinair](#)

Defnyddiwr newydd?

Cofrestrwch gyda ni i greu eich cyfrif gan ddefnyddio eich e-bost. Defnyddir yr e-bost yma ar gyfer pob gohebiaeth felly gwnewch yn siwr bod y cyfeiriad yn un dilyn ac yn cael ei wirio'n rheolaidd.

Cofiwch fod rhaid dilyn pob defnyddiwr newydd cyn cael mynediad i'r system. Byddwn yn ceisio cwblhau'r broses ddilysu cyn gynted â phosib (hyd at 2 ddiwrnod gwaith neu, o dan amgylchiadau arbennig, gall hyn fod yn hirach) ar ôl i chi gwblhau'r cofrestru.

© CC Technology

 English Cymraeg

CC Grant Tracker V3.1.1 © CC Technology Ltd. (2014)

Ymgeiswyr Presennol / Blaenorol

Os ydych chi wedi gwneud cais am grant gan Chwaraeon Cymru yn ystod y 3 i 5 mlynedd diwethaf, mae'n debygol iawn bod eich manylion wedi'u cofrestru eisoes gyda Chwaraeon Cymru.

I wirio hyn, cliciwch ar y botwm [Cofrestru] a cham cyntaf y cofrestru fydd darparu eich cyfeiriad e-bost. Os bydd Porthol Grantiau Chwaraeon Cymru yn adnabod eich cyfeiriad e-bost, bydd rhaid i chi fynd yn ôl i'r sgrin fewngofnodi, nodi eich cyfeiriad e-bost o dan **Defnyddiwr presennol** a chlicio ar [Wedi Anghofio Cyfrinair?](#) er mwyn cael cyfrinair drwy e-bost.

System Ymgeisio Chwaraeon Cymru

Cofrestru
Nodwch eich cyfeiriad e-bost isod. (• yn dynodi maes gorfodol ar gyfer cofrestru)

E-bost Mae'r cyfeiriad e-bost yn bodoli eisoes. •

Cadarnhau e-bost

Mewngofnodi - Cais am Grant i Chwaraeon Cymru

Mewngofnodwch gan ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost a'ch Enw Defnyddiwr a hefyd y cyfrinair.

Os nad ydych yn Ddefnyddiwr cofrestredig, cofrestrwch ar-lein gan ddefnyddio'r botwm [Cofres


Os ydych chi wedi anghofio eich cyfrinair, cliciwch ar y ddolen "Wedi Anghofio Cyfrinair" isod a

Defnyddiwr presennol?

Mewngofnodwch i fynd i mewn i'ch cyfrif.

E-bost

Cyfrinair

Cofiwch Fi [Wedi Anghofio Cyfrinair](#) 

Pan fyddwch yn clicio ar [Wedi Anghofio Cyfrinair](#) bydd y sgrin ganlynol yn ymddangos:

Enw Defnyddiwr gwyn27@cymru.com

Atebwch eich cwestiwn diogelwch isod er mwyn i ni anfon cyfrinair dros dro i'ch cyfrif e-bost

Ailosod Cyfrinair Cancel

Nid ydych wedi dewis cwestiwn diogelwch ar hyn o bryd felly'r cyfan sydd raid i chi ei wneud yw clicio ar y botwm **[Ailosod Cyfrinair]**.

Diolch am ddefnyddio'r gwasanaeth atgoffa am gyfrinair. Mae e-bost wedi cael ei anfon i'ch cyfrif gyda chyfrinair dros dro.

Parhau

Cliciwch ar **[Parhau]** i fynd yn ôl i'r sgrin fewngofnodi a byddwch yn derbyn e-bost yn fuan gan Chwaraeon Cymru gyda'ch cyfrinair dros dro.

Pan fyddwch yn mewngofnodi am y tro cyntaf, bydd rhaid i chi gwblhau'r broses Gofrestru drwy newid y cyfrinair dros dro sydd wedi'i anfon atoch chi gan Chwaraeon Cymru i fod yn gyfrinair mwy ystyrlon, ac wedyn dewis cwestiwn diogelwch i'w ddefnyddio i ddilysu pwy ydych chi, rhag ofn i chi anghofio eich cyfrinair yn y dyfodol.

Enw Defnyddiwr gwyn27@cymru.com

Rhowch gyfrinair newydd isod

Cyfrinair Dros Dro

Cyfrinair Newydd

Cadarnhau'r Cyfrinair Newydd

Please select a security question and answer below for future authentication of your account
= Dewiswch gwestiwn diogelwch ac ateb isod ar gyfer dilysu eich cyfrif yn y dyfodol

Cwestiwn What is your favourite film?

Ateb

Ar ôl mewngofnodi, rydym yn argymhell eich bod yn clicio ar **Rheoli Fy Manylion** i wirio bod eich manylion personol, sydd gan Chwaraeon Cymru, dal yn gywir. Os nad ydynt, cewch eu newid.

Rydych yn gallu defnyddio Porthol Grantiau Chwaraeon Cymru i wneud cais am grant ar-lein yn awr.

Ymgeiswyr Newydd

Os ydych yn ymgeisydd newydd neu os nad yw Porthol Grantiau Chwaraeon Cymru yn adnabod eich e-bost, bydd rhaid i chi ddal ati gyda'r broses gofrestru.

Yn ystod y broses Gofrestru, bydd rhaid i chi wybod y canlynol:

- Beth yw cyfeiriad eich e-bost

System Ymgeisio Chwaraeon Cymru

Cofrestru

Nodwch eich cyfeiriad e-bost isod. (yn dynodi maes gorfodol ar gyfer cofrestru)

E-bost

Cadarnhau e-bost

- Ydych chi'n Athletwr Elitaidd ai peidio – mae'r meini prawf ar gyfer pwy sy'n gymwys fel Athletwyr Elitaidd wedi'u diffinio'n glir fel rhan o'r broses gofrestru

System Ymgeisio Chwaraeon Cymru CC Grant Tracker

Elite Cymru

Ydych chi'n Athletwr Elitaidd sy'n gymwys i dderbyn cyllid Cynllun Elite Cymru?

Ydw Nac ydw

Dim ond chwaraeon heb fod yn rhai Olympaidd mae Elite Cymru yn eu cynnwys (e.e. Carate, Snwcer); chwaraeon Gemau'r Gymanwlad fel Bowlio; neu chwaraeon sy'n ennill medalau ar lefel y byd, fel Golf. Byddai Saethu'n mynd drwy gynllun Talent Cymru gennym.

Ystyr Athletwr Elitaidd yw athletwr:

- Yn rhif 1 o leiaf yng Nghymru yn ei grwp oedran a'i ddisgyblaeth a hefyd
- Yn rhif 3 o leiaf yn y DU – OND rydym yn edrych ar bob camp a chais ar sail eu rhinweddau unigol ac mae safonau mynediad penodol i'w hystyried wedi'u cytuno gyda phob Corff Rheoli Cenedlaethol er mwyn cyd-fynd â'r Gwledydd Cartref eraill.
- Cystadlu yn un o'r Campau canlynol
 - Pysgota
 - Criced
 - Golf
 - Jiwdo
 - Carate
 - Beicio modur
 - Chwaraeon modur
 - Pwl
 - Sboncen
 - Achub Bywyd Syrff
 - Taekwondo (o dan amodau eithriadol)
 - Bowlio Deg
 - Tennis

- Pwy ydych chi a'ch manylion cysylltu – cyfeiriad cartref a rhifau ffôn cyswllt amrywiol
- Y Sefydliad neu'r Clwb Chwaraeon y byddwch yn ymgeisio ar ei ran
- Eich swydd gyda'r Sefydliad neu'r Clwb Chwaraeon

- Os yw'n Sefydliad neu'n Glwb Chwaraeon newydd i Chwaraeon Cymru h.y. ddim ar y rhestr wrth i chi ddechrau teipio, bydd rhaid i chi glicio ar y ddolen o dan y Sefydliad er mwyn rhoi rhagor o fanylion am y Sefydliad neu'r Clwb Chwaraeon yn y templed e-bost sydd wedi'i ddarparu.
- Hefyd hoffem gael gwybod a ydych wedi cael cyswllt erioed gyda naill ai aelod o staff Chwaraeon Cymru, Swyddog Datblygu Chwaraeon yn eich Awdurdod Lleol neu eich Corff Rheoli Cenedlaethol.
- Gofynnir i chi hefyd ddarllen a derbyn Telerau Defnydd Chwaraeon Cymru ar gyfer Porthol Grantiau Chwaraeon Cymru

Cofrestru?

Diolch yn fawr. Llenwch weddill y ffurflen gofrestru fer yma os gwelwch yn dda.
 (● yn dynodi maes gorfodol ar gyfer cofrestru)
 (● yn dynodi maes gorfodol ar gyfer cyflwyno cais)

E-bost: gwyn26@cymru.com

Teitl: Mr

Enw cyntaf:

Cyfenw:

Cyfeiriad:

Dinas/Tref:

Gwlad:

Cod post:

Rhif Ffôn Gwaith:

Rhif Ffôn Cartref:

Symudol:

Dewis o laith:

Sefydliad:

Os nad yw eich sefydliad ar y rhestr, cliciwch ar y ddolen ganlynol i anfon e-bost i Chwaraeon Cymru gyda manylion ar gyfer cofrestru eich sefydliad.
grant.applications@sportwales.org.uk

Swydd yn y Sefydliad:

e.e. Trysorydd,
 Cadeirydd,
 Ysgrifennydd Clwb,
 ac ati

Ydych chi wedi bod mewn cysylltiad ag Aelod o Staff Chwaraeon Cymru, Swyddog Datblygu Chwaraeon yn eich Awdurdod Lleol neu eich Corff Rheoli Cenedlaethol? Os felly, rhoiwch ei Enw(au) a'r rhi(au) cyswllt, os ydych yn gwybod beth ydynt.?

Nifer Geiriau: 5 (Dim mwya na: 1000)

I gofrestru am fynediad i'r system grantiau ar-lein, rhoiwch eich manylion personol ar y ffurflen hon.

Wedi cofrestru'n llwyddiannus, bydd cadarnhad o'ch manylion mewngofnodi a'ch cyfrinair yn cael eu hantfon i'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i roi.

Dim ond un cyfrif ddyfai defnyddwyr cofrestredig ei gael felly os oes gennych chi gyfrif yn y system eisoes, dychwelwch i'r sgrin fewngofnodi.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau eraill am gofrestru neu am eich cyfrif presennol, cofiwch gysylltu.

Bydd y manylion a roddir gennych yn galluogi Chwaraeon Cymru i'ch sefydlu fel Cyswllt a chreu dolen rhyngoch chi a'ch Sefydliad neu eich Clwb Chwaraeon

Cofiwch: i ymgeiswyr newydd, mae'n gallu cymryd hyd at 2 ddiwrnod busnes i Chwaraeon Cymru brosesu eich cais am gofrestru ar-lein. Y rheswm am hyn yw bod rhaid i ni gynnal nifer o archwiliadau diwydrwydd dyladwy, y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni eu cwblhau o dan amodau'r Loteri a Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod y cyllid rydym yn ei weinyddu ar eu rhan yn mynd i brosiectau ac ymgeiswyr dilys.

**** Oriau busnes Chwaraeon Cymru yw 08:30 i 16:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio Gwyliau Banc ****

Pan mae Chwaraeon Cymru yn awdurdodi eich cais am gofrestru ar-lein, bydd cyfrinair dros dro yn cael ei anfon ar e-bost atoch chi. Pan rydych yn mewngofnodi i Borthol Grantiau Chwaraeon Cymru am y tro cyntaf, byddwch yn cael eich annog i newid y cyfrinair hwnnw i rywbeth mwy cofiadwy. Hefyd gofynnir i chi ateb cwestiwn diogelwch a ddefnyddir i ddilysu pwy ydych chi pe baech yn anghofio eich cyfrinair ryw dro.

Enw Defnyddiwr gwyn27@cymru.com
Rhowch gyfrinair newydd isod

Cyfrinair Dros Dro

Cyfrinair Newydd

Cadarnhau'r Cyfrinair Newydd

Please select a security question and answer below for future authentication of your account
= Dewiswch gwestiwn diogelwch ac ateb isod ar gyfer dilysu eich cyfrif yn y dyfodol

Cwestiwn

Ateb

Nawr byddwch yn gallu cael mynediad llawn i Borthol Grantiau Chwaraeon Cymru er mwyn gwneud y canlynol:

- Ymgeisio am Grant newydd
- Rheoli unrhyw geisiadau presennol
- Argraffu copi o unrhyw gais presennol i'w gadw yn eich cofnodion
- Gweld ceisiadau hanesyddol
- Cymeradwyo ceisiadau os mai chi yw'r ail lofnodydd wedi'i enwebu
- Rheoli eich manylion fel newid unrhyw fanylion cyswllt. Er enghraifft, rhif ffôn symudol newydd, newid eich cyfeiriad e-bost, newid eich cyfrinair ac ati.
- Cysylltwch â Chwaraeon Cymru

Mae'r opsiynau sy'n galluogi i chi wneud y tasgau hyn i'w gweld ar y ddewislen ar ochr chwith tudalen yr Hafan a thudalennau'r Porthol wedyn.

System Ymgeisio Chwaraeon Cymru



CC Grant Tracker

Mr
Stanley John

Hafan

[Ymgeisio](#)

[Fy Ngheisiadau](#)

[Rheoli Fy Manylion](#)

[Cysylltu â Ni](#)

[Allgofnodi](#)

Help y System

Croeso i System Rheoli Grantiau Chwaraeon Cymru, Mr Stanley John.
Rydych chi'n gallu ymgeisio am Gyllid nawr.

Os ydych yn dymuno gwneud cais am Grant newydd, cliciwch ar yr opsiwn **Ymgeisio** ar y ddewislen ar yr ochr chwith.

Os ydych yn dymuno gweithio ar Gais presennol, gallwch naill ai glicio ar **Fy Ngheisiadau** ar y ddewislen ar yr ochr chwith neu gallwch glicio ar y dolenni perthnasol yn y tabl isod.

Sylwer: O'n profiad ni, mae gan Geisiadau am Gyllid fwy o siawns o lwyddo pan mae'r Prosiect a'r cais dilynol wedi cael eu trafod ymlaen llaw gyda Swyddog Datblygu Chwaraeon eich Awdurdod Lleol a'ch Corff Rheoli Cenedlaethol.